# YNYS MÔN YSBRYDOLEDIG

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

## TROSOLWG

Mae dysgwyr yn archwilio sut y cynlluniwyd y Land Rover ar Ynys Môn a pham ei fod yn gerbyd mor bwysig, cyn iddynt ddylunio cerbyd amffibiaidd ar gyfer achub pobl o ardaloedd sydd dan ddŵr. Mae dysgwyr yn astudio gwaith Syr John Kyffin Williams cyn dewis eu hoff dirlun o Fôn i'w baentio yn ei arddull. Maen nhw'n archwilio'r hyn sy'n gwneud Ynys Môn yn arbennig ac yn cynhyrchu fideo ar gyfer twristiaeth, sy'n amlygu ei rhinweddau.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o gymryd ffotograffau o dirweddau, e.e. ffonau clyfar, tabledi, camerâu, ac ati.
Dull o baentio tirluniau yn arddull Syr John Kyffin Williams, e.e. paent trwchus, cyllyll palet neu frwshys trwchus a bord neu ganfas trwchus.
Dull o greu clipiau fideo sy'n cynnwys sain neu heb gynnwys sain, e.e. ffonau clyfar, tabledi, camerâu fideo, ac ati.
Dull o olygu fideo.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## PEIRIANWYR YSBRYDOLEDIG

Eglurwch wrth y dysgwyr fod peiriannydd a ddyluniodd gerbyd ar Ynys Môn, yn cael ei drafod yn y dasg hon. Mae'n ddoeth peidio â sôn am Land Rover ar hyn o bryd gan y bydd yn effeithio ar y dysgu yn Sgrîn 3.

### Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr ymdrin â'r ddelwedd.

## Sgrîn 4

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth am Maurice Wilks, athrylith peirianneg cwmni ceir Rover, a gynlluniodd y Land Rover.

## Sgrîn 5

Dangoswch y fideo: The Land Rover Series One a gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl bod y Land Rover Cyfres 1 mor wahanol i gerbydau eraill?
- Roedd yn rhaid i'r Land Rover fod yn ysgafn ac yn rhad i'w wneud. O beth ydych chi'n meddwl y cafodd ei wneud? Pam?
- Sut ydych chi'n meddwl bod dyluniad y Land Rover wedi ei wneud yn addas fel cerbyd pob tir?
- Pam fod y Land Rover yn gerbyd delfrydol i ffermwyr?

## Sgrîn 6

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i ddylunio cerbyd amffibiaidd ar gyfer achub pobl mewn ardaloedd sydd dan ddŵr, a'i gyflwyno i'r dosbarth. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth mae amffibiaidd yn ei olygu?
- Pryd ydych chi wedi gweld cerbyd amffibiaidd? Ble oedd e?
- Pa rinweddau sydd eu hangen ar gerbyd amffibiaidd? Pam?
- Ble arall ydych chi'n meddwl y defnyddir cerbydau amffibiaidd?

Gofynnwch i'r dysgwyr restru eu meini prawf llwyddiant ar gyfer yr hyn sy'n gwneud cerbyd amffibiaidd da yn y blwch a ddarperir.

## Sgrîn 7

Eglurwch wrth y dysgwyr fod angen i bob cerbyd fod mor ynni-effeithlon â phosibl. Yna, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fath(au) o ynni fydd eich cerbyd yn ei ddefnyddio i symud? Pam?

- Sut bydd eich cerbyd yn:
    - lleihau gwrthiant aer? Pam fod hyn yn bwysig?
    - mor ysgafn â phosibl? Pam fod hyn yn bwysig?
    - cael digon o afael ar y ffordd, ond eto dim gormod? Pam fod hyn yn bwysig?

Yna, gallant ychwanegu unrhyw feini prawf llwyddiant newydd at eu rhestr.

## Sgrîn 8

Dywedwch wrth y dysgwyr y bydd angen i'w cerbyd amffibiaidd newid o ddefnydd ar dir i ddefnydd mewn dŵr, ac i'r gwrthwyneb. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut bydd eich cerbyd yn newid o ddefnydd ar dir i ddefnydd mewn dŵr?
- Sut y byddwch yn rhybuddio pobl bod y cerbyd yn newid o ddefnydd ar dir i ddefnydd mewn dŵr? Pam fod hyn yn bwysig?
- Pa siâp fydd eich cerbyd? Pam?
- Pa ddefnyddiau fydd eu hangen er mwyn gwneud eich cerbyd? Pam?

Yn dilyn hyn, gallant ychwanegu unrhyw feini prawf llwyddiant newydd at eu rhestr.

## Sgrîn 9

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y rhestr o feini prawf llwyddiant a dewis y pump neu chwech pwysicaf. Yna, gallant ddileu'r holl feini prawf eraill o'r rhestr.

Eglurwch y bydd y meini prawf pwysicaf a ddetholwyd ganddynt yn cael eu defnyddio ar gyfer asesu dyluniad eu cerbyd.

## Sgrîn 10

Gwahoddwch y dysgwyr i ddylunio eu cerbyd a llunio cyfres o ddiagramau i'w ddangos o wahanol onglau. Yna, dylent labelu'r diagramau er mwyn dangos y defnyddiau a ddefnyddiwyd a'r mesuriadau. Dylid hefyd eu hannog i egluro yn eu diagramau, sut mae'r cerbyd wedi'i gynllunio ar gyfer achub pobl mewn ardaloedd sydd dan ddŵr.

## Sgrîn 11

Gofynnwch i'r dysgwyr gyflwyno dyluniad o'u cerbyd amffibiaidd, i'r dosbarth.

## Sgrîn 12

Gofynnwch i'r dosbarth am adborth ynghylch pa mor dda y gwnaeth pob dyluniad fodloni pob un o feini prawf llwyddiant y grŵp a wnaeth ei ddylunio. Gwahoddwch y dysgwyr i wneud unrhyw addasiadau i'w dyluniadau er mwyn eu gwella.

TASG 2

# TIRWEDDAU YSBRYDOLEDIG

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n edrych ar dirweddau yn Nhirwedd Cenedlaethol Ynys Môn. Byddai'n ddoeth peidio â sôn am Syr John Kyffin Williams ar y dechrau, gan fod gofyn i ddysgwyr geisio gweithio allan pwy sy'n cael ei ddarlunio yn y cerflun sydd yn y ddwy sgrîn gyntaf.

## Sgriniau 3-4

Gwahoddwch barau o ddysgwyr i gynhyrchu cwestiynau da er mwyn ceisio canfod beth mae'r ddelwedd yn ei ddangos iddynt gan ddefnyddio'r geiriau ar gychwyn eu cwestiynau. Yna, dylent rannu eu cwestiynau gyda'r grŵp a cheisio penderfynu beth yw'r atebion.

## Sgrîn 5

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth am Syr John Kyffin Williams, y paentiwr tirluniau Cymreig.

Gofynnwch i'r dysgwyr astudio'r gwaith celf a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth oedd eich ymateb cyntaf i'r gwaith celf? Pam ydych chi'n meddwl eich bod wedi ymateb fel hyn?
- Beth sy'n digwydd yn y gwaith celf?
- Sut byddech chi'n disgrifio'r gwaith celf i rywun sydd erioed wedi ei weld o'r blaen?
- Beth ydych chi'n meddwl mae'r artist yn ceisio'i fynegi yn y gwaith celf?
- Beth yw'r stori sy'n cael ei hadrodd, os oes stori o gwbl?
- Beth ydych chi'n meddwl ddigwyddodd cyn yr olygfa hon?
- Beth ydych chi'n meddwl ddigwyddodd nesaf?
- Pa emosiynau ydych chi'n eu teimlo wrth edrych ar hyn?

## Sgrîn 6

Rhoddir mwy o wybodaeth am Syr Kyffin yma, yn ogystal â'i arddull wrth baentio. Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am greu gwaith celf yn arddull Syr Kyffin, gan ddangos tirwedd leol. Cyn iddynt wneud hyn, bydd angen iddynt:

- astudio rhai o'i luniau
- penderfynu ar y dirwedd y maent am ei phaentio.

## Sgrîn 7

Mae llawer o weithiau Syr Kyffin i'w gweld yn Oriel Môn. Gallech fynd â'r dysgwyr i'r Oriel a/neu chwilio ar-lein am ddelweddau o'i waith celf.

Wrth iddynt edrych ar ei weithiau celf, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth oedd eich ymateb cyntaf i'r gwaith celf? Pam ydych chi'n meddwl eich bod wedi ymateb fel yna?
- Beth ydych chi'n meddwl mae Syr Kyffin yn ceisio'i fynegi yn ei waith celf?
- Pa emosiynau ydych chi'n eu teimlo wrth edrych ar y paentiadau?
- Sut mae'r paent yn cael ei roi ar y ganfas? Pam fod hyn yn effeithiol?
- Sut allech chi roi paent ar ganfas yn yr un ffordd? Beth fyddai ei angen arnoch chi?

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Syr Kyffin wedi defnyddio'r dirwedd fel ysbrydoliaeth. Dywedwch wrthyn nhw eu bod nhw'n mynd i fynd allan i'r awyr agored i gymryd ffotograffau o'r dirwedd sy'n eu hysbrydoli.

Yna, pan yn ôl yn yr ysgol, gallant ddewis un o'r ffotograffau i'w baentio. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ym mhle ar Ynys Môn y byddech chi'n dod o hyd i dirweddau ysbrydoledig? Pam maen nhw'n ysbrydoli?
- Beth yw'r harddwch yn y dirwedd sy'n eich ysbrydoli?
- Pa liwiau fyddwch chi'n edrych amdanyn nhw yn y dirwedd? Pam?
- Pa siapiau fyddwch chi'n edrych amdanyn nhw yn y dirwedd? Pam?

## Sgrîn 9

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i gymryd ffotograffau o dirweddau ysbrydoledig.

## Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr ddethol eu hoff ffotograff. Yna, anogwch nhw i ddrafftio eu llun er mwyn gweithio allan ble bydd pob elfen yn ffitio ar y papur, ac yna defnyddio paent trwchus i greu lliwiau ar ffurf haenau, er mwyn dangos eu tirwedd.

Gwahoddwch nhw i gymharu eu llun (paentiad) nhw ag un o rai Syr Kyffin, a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sy'n debyg rhwng eich gwaith celf chi a gwaith Syr Kyffin?
- Beth fyddech chi'n gallu ei wneud er mwyn gwneud eich gwaith celf chi yn debycach i waith Syr Kyffin?

TASG 3

# PAM FOD YNYS MÔN YN YSBRYDOLEDIG?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddant yn archwilio beth sy'n gwneud Ynys Môn yn arbennig ac yn cynhyrchu fideo ar gyfer twristiaeth i amlygu ei rhinweddau, yn y dasg hon.

## Sgrîn 3

Ar y sgrîn hon, darperir gwybodaeth am dwristiaeth ac amaethyddiaeth, sef y prif feysydd cyflogaeth ar Ynys Môn.

## Sgrîn 4

Yma, nodir fod Ynys Môn yn ysbrydoledig oherwydd bod ganddi: harddwch naturiol, hanes cyfoethog, bywyd gwyllt, danteithion coginiol ac arfordir heb ei ddifetha, yn ôl Bing AI.

## Sgrîn 5

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am wneud fideo dwy funud o hyd ar gyfer twristiaeth, er mwyn dangos sut mae Ynys Môn yn ysbrydoledig.
Gofynnwch i bob grŵp ddechrau creu map meddwl gan ddefnyddio'r syniadau blaenorol yn sail iddo – harddwch naturiol, hanes cyfoethog, bywyd gwyllt, danteithion coginiol, arfordir heb ei ddifetha. Yna, gall y grwpiau drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rinweddau eraill sydd gan Ynys Môn?
- Pa rai o'r rhinweddau hyn fydd yn apelio at dwristiaid? Pam?

Yn olaf, gallwch anog y dysgwyr i ychwanegu unrhyw rinweddau newydd at eu map meddwl.

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa leoedd neu ddigwyddiadau y gallwch chi eu harddangos yn eich fideo?
- Pa un o'r lleoedd neu ddigwyddiadau hyn fydd yn apelio at dwristiaid? Pam?
- Pa mor hygyrch yw'r lleoedd neu'r digwyddiadau hyn? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth yw cost mynediad i'r lleoedd neu'r digwyddiadau hyn?

Gofynnwch i'r dysgwyr ychwanegu'r lleoedd neu'r digwyddiadau hyn ac unrhyw fanylion perthnasol at eu map meddwl trwy gysylltu pob un ag o leiaf un o'r rhinweddau.

## Sgrîn 7

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i chwilio ar y rhyngrwyd er mwyn darganfod mwy am leoedd neu ddigwyddiadau ar Ynys Môn a fydd yn apelio at dwristiaid. Awgrymwch eu bod yn dechrau trwy wylio fideos ar YouTube neu gyrchu: Croeso i Môn.

Wrth iddynt ddod o hyd i leoedd neu ddigwyddiadau newydd, gofynnwch i'r dysgwyr eu hychwanegu at eu map meddwl, gan gynnwys unrhyw fanylion perthnasol eraill. Unwaith eto, anogwch y dysgwyr i gysylltu'r rhain â'r rhinweddau.

Atgoffwch y dysgwyr bod angen iddynt ystyried y canlynol wrth chwilio ar y rhyngrwyd:

*Cyn ymchwilio...*

- Pa dermau chwilio allech chi eu defnyddio? Pa rai yw'r gorau? Pam?
- Pa fath o safleoedd fydd orau i edrych arnynt? Pam?

*Wrth asesu gwybodaeth/data...*

- Sut ydych chi'n gwybod bod y wybodaeth/data yn ddibynadwy? Sut allech chi ddarganfod?
- A allai'r wybodaeth/data fod yn unochrog? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr gynllunio eu fideo gan ddefnyddio eu map meddwl, a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut byddwch chi'n ffilmio elfennau o'ch fideo?
- Pa rinweddau Ynys Môn fyddwch chi'n canolbwyntio arnyn nhw? Pam?
- Pa leoedd neu ddigwyddiadau fyddwch chi'n eu cynnwys? Pam?
- Pa wybodaeth bwysig sydd angen i chi ei chynnwys? Pam?
- Pa bethau gweledol fyddwch chi'n eu defnyddio? Pam?
- Pa sain fyddwch chi'n ei defnyddio? Pam?
- Pwy yn eich grŵp fydd yn gwneud beth? Pam?
- Sut byddwch chi'n sicrhau bod eich fideo yn ddiddorol i dwristiaid?
- Sut byddwch chi'n sicrhau mai dim ond 2 funud yw hyd eich fideo?

## Sgrîn 9

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i ffilmio clipiau perthnasol ar gyfer eu fideo.

## Sgrîn 10

Gwahoddwch y dysgwyr i olygu eu fideo.

## Sgrîn 11

Gofynnwch i'r dysgwyr ddangos eu fideo i eraill a gofyn am adborth ynghylch pa mor dda y mae'r fideo yn:

- dangos rhinweddau Ynys Môn
- dangos lleoedd neu ddigwyddiadau diddorol
- rhoi gwybodaeth am leoedd a digwyddiadau
- ymgysylltu â thwristiaid fel eu bod yn ymweld ag Ynys Môn.

## Sgrîn 12

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried yr adborth y mae eraill wedi'i roi iddynt, ac yna i drafod y cwestiynau canlynol yn eu grŵp.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa elfennau o'r adborth ydych chi'n cytuno â nhw? Pam?
- Pa elfennau o'r adborth nad ydych yn cytuno â nhw? Pam?
- Pa elfennau o'r adborth yr ydych chi'n cytuno â nhw, y gallwch chi eu gweithredu'n hawdd?

Newidiwch eich fideo er mwyn ei wella.

Gallai dysgwyr anfon eu fideo i safleoedd twristiaeth, fel Croeso Môn neu Croeso Cymru, gan ofyn a fyddant yn fodlon ei ddangos i eraill.

## Sgrîn 13

Gwahoddwch y dysgwyr i ddechrau ar waelod y triongl a meddwl am y ffyrdd y gwnaethon nhw weithio: yn unigol, mewn grwpiau, ar-lein, gwaith pâr. Yna, gwahoddwch nhw i ystyried pa strategaethau a ddefnyddiwyd ganddynt o'r restr ganlynol: darllen, ymchwilio, tynnu llun, myfyrio, dosbarthu, trafod, gwneud prototeipiau, defnyddio modelau, defnyddio enghreifftiau, gwneud rhestrau. Gallant hefyd awgrymu strategaethau eraill a ddefnyddiwyd. Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr ystyried pa strategaethau a weithiodd orau. Bydd y wybodaeth olaf hon yn ddefnyddiol ar gyfer gweithgareddau tebyg yn y dyfodol.